Cymdeithas Hanes Llanrwst ar Cylch

Newyddlen y Gymdeithas *Rhif 10 Gorffenaf 2008*

Cyfarfodydd Diweddar

Chwefror: Yng nghyfarfod cyntaf y tymor, testun sgwrs Mr James Berry oedd 'Chwedlau Dyffryn Conwy' a chafwyd sgwrs gynhwysfawr yn ein harwain i lawr yr afon o'r glannau gan gyfeirio at chwedlau megis un Dylan Ail Don, Maelgwn Gwynedd a'r Fad Felen, Allor Moloch yng Nglan Conwy, Dafydd ap Siencyn a'r Afanc. Gwnaeth ei frwdfrydedd a'i wybodaeth hon yn noson ddifyr iawn.

Mawrth: Daeth dros 80 o aelodau ac ymwelwyr i gyfarfod mis Mawrth i wrando ar Mr Arthur Pierce yn rhoi ei olwg ef ar hanes y Rhufeiniaid yn Nyffryn Conwy. Yn dilyn rhagarweiniad ar hanes cefndirol y ffyrdd a'r caerau yn Lloegr aeth ymlaen i roi hanes goresgyniad Cymru. Fel cerddwr brwd, mae wedi olrhain hen lwybrau a ffyrdd uwchben Dyffryn Conwy ac wedi tynnu llawer o luniau o olion ar y dirwedd a rhai darnau o ffyrdd sydd i'w gweld o hyd. Cafodd yr aelodau gyfle i weld rhai o'r lluniau hyn yn ystod y sgwrs.

Ebrill: Yn dilyn yr adroddiadau ar waith y flwyddyn, bu Mr Pierino Algieri yn rhoi gwledd i'r llygad gyda'i luniau fideo o'r ardal yn cynnwys rhai o'r mynyddoedd, glannau môr a Gerddi Bodnant a phawb yn rhyfeddu at luniau'r haul yn codi ac yn machlud. Gall aelodau oed yn methu bod yn bresennol, ac yn arbennig ein ffrindiau mewn rhannau eraill o'r wlad, mae gan Mr Algieri wefan ardderchog yn dangos rhai o'i luniau gwych.

http://www.algieri-images.co.uk/

Mai: Methodd y siaradwr gwadd, Mr Gareth Jones, â bod yn bresennol yng nghyfarfod mis Mai, ond yn hynod ffodus i'r Gymdeithas, safodd un o'n haelodau, sef Mr Thomas Barrie Moore yn y bwlch, a rhoi sgwrs ardderchog ar Goedwig Gwydir a choedwigaeth yn gyffredinol. Cychwynnodd trwy egluro'r angen yn dilyn y Rhyfel Byd 1af am sefydlu coedwigoedd fyddai'n tyfu'n gymharol gyflym a sut bu i gomisiynau gael eu sefydlu ar draws y wlad. Adroddodd lawer o straeon doniol am ei brofiadau yn ei waith. Mae'n un o'r ychydig sydd wedi gweld y broses o blannu, tyfu a thorri'n digwydd am yr eildro. Roedd ei ddiddordeb a'i bleser yn ei waith yn amlwg yn ei sgwrs a rhoddodd agoriad llygad i'w gynulleidfa a pheri iddynt weld y coedwigoedd o'u cwmpas mewn golau newydd.

Mehefin: Mr Dic Jones oedd ein gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Mehefin gyda'i atgofion am ei fywyd cynnar yn Llanrwst. Cofiai Dic amserau caled ond roedd ambell hanes am ddireidi a hwyl yn peri i'r gynulleidfa chwerthin. Yn ei arddegau, gadawodd Lanrwst a mynd i fyd y bêl-droed, gan chwarae i nifer o dimau enwog gyda chwaraewyr adnabyddus. Cafodd yr aelodau gyfle i'w holi a hel atgofion am ddyddiau teithio ar fws Moi Hughes i gemau.

Cyfarfodydd i ddod

Medi 3ydd	Gwydir yn oes y Tuduriaid, agweddau ar ei phensaernïaeth a nawdd	Peter Welford
Hydref 1af	Robert Harris, artist lleol 1849-1919	Dr Llyr Gruffudd
	Bydd y sgwrs yn Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu	
Tachwedd 5ed	'Roeddwn i yno'	Idris Evans
Rhagfyr 3ydd	Noson o adloniant	Triawd Llanrwst
	Bydd te, coffi a mins pei i roi naws yr ŵyl	

A fuasech cystal â chofio bod tâl aelodaeth am 2008/9 yn ddyledus yng nghyfarfod mis Medi

Os na fedrwch fod yn bresennol, gallwch adnewyddu eich aelodaeth trwy alw yn **siop Kelvin** neu yrru siec am £5 at y Trysorydd, **Mrs Mary Marrow, Firs Cottage, Maenan, Llanrwst, LL26 0YR.**

Cyfraniad i'r Urdd

Yn y CCB,cyflwynodd y llywydd, siec o £500 i Mr Arwel Roberts, aelod o bwyllgor yr apêl leol i godi arian at Eisteddfod yr Urdd 2008 yn Sir Conwy. Teimla'r Gymdeithas ei bod yn bwysig iddi gefnogi'r traddodiad a'r etifeddiaeth sydd yn rhan mor hanfodol o'r eisteddfod.

Ysgoloriaeth i'r ysgol

Gyda golwg ar gefnogi pobl ieuanc sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, cyhoeddodd y cadeirydd yn y CCB bod y Gymdeithas yn bwriadu sefydlu ysgoloriaeth o £100 i ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Conwy sy'n llwyddo orau mewn hanes neu bwnc perthnasol yn lefel A. Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei rhoi bob blwyddyn am 5 mlynedd

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Roedd Mr Algieri wedi beirniadu'r gystadleuaeth ffotograffiaeth, a drefnwyd gan Mr Ken Bowden a rhoddodd eiriau buddiol o gyngor i'r cystadleuwyr. Dyfarnwyd y gwobrau i 1) Mr Richard Hayward 2) Mr Terence Williams 3) Miss Ceri Jones. Braf oedd gweld un o'n haelodau ieuengaf, sef Ceri, yn ennill gwobr. Diolchwyd i Mr Bowden am ei waith trefnu.

Llyfr Heol Scotland

Mae pob copi o lyfr Heol Scotland wedi ei werthu!

Llyfr Heol Dinbych

Mae'r grŵp llyfrau wrthi'n brysur yn ymchwilio i hanes Heol Dinbych ac yn casglu lluniau. Os oes gan unrhyw aelod, neu unrhyw un y gwyddoch amdano, wybodaeth yr hoffent ei rannu, cysylltwch gyda Pat Williams, Pat Rowley neu Kelvin Roberts (Dickinson's)

Gweithredu

- Mae Shaun Bastable, aelod o'r gymdeithas, am beintio giât mynwent Heol Scotland.
- Mae gwaith wedi dechrau ar ddymchwel y rhannau o'r hen Ysgol Ramadeg sydd heb fod yn rhestredig. Bydd y safle yn cael ei datblygu i gynnwys tai ar gyfer henoed a chyfleusterau cymunedol eraill.
- Yn dilyn pwysau o du'r Gymdeithas, mae 'r hen Ysgol Genedlaethol wedi ei thacluso a'r ffenestri wedi eu gorchuddio.
- Mae tŵr cloc Ysgol Heol Watling wedi ei dynnu i lawr i'w drwsio cyn ei ailosod yn fuan.
- Mae fflatiau moethus yn cael eu codi ar safle Gwesty'r Victoria.